# STORI RHAN 2

Darllenwch yr isod i ddysgu beth sydd am ddigwydd yn OLION Rhan II: Yr Isfyd.

## Y Pier

Ar y pier, mae digwyddiad amgen ‘Cwiar ar y Pier’ wedi bod yn digwydd dan arweiniad y frenhines drag leol, Maggi Noggi.  Mae’n

ddigwyddiad sy'n wrthwynebiad i Gŵyl Adda Fest.

Mae dynes leol, Brenda, wedi bod yn chwilio am ei merch, Elan, ers neithiwr. Bu'n siarad gyda Maggi Noggi am ychydig, cyn iddi adael i barhau i chwilio am Elan.

Ychydig yn ddiweddarach, mae

Elan ar y pier gyda’i ffrindiau, yn cwyno am ei mam ac yn ei chymharu â’r Arianrhod ‘drwg’ y mae hi wedi bod yn dysgu amdani yn yr ysgol.

Mae Maggi yn croesawu’r bobl ifanc gyda breichiau agored ac mae parti yn cychwyn. Mae Elan yn mynd mewn i siop Maggi -

‘Dragwyddoldeb’ - ac yn gwisgo ei gwisg am y noson sy’n gwneud iddi edrych fel Arianrhod 2.0.

Yn nghanol popeth, mae Elan yn derbyn galwad gan ei mam, mae hi’n ben boeth ac yn gwthio Elan yn rhy bell - efallai ychydig yn rhy bell yn llythrennol! Mae Elan yn diflannu am

ychydig funudau ar ôl disgyn i'r dŵr.

Ein amser ni = Mae Elan yn diflannu am ychydig funudau
Yn y byd = Mae Elan yn suddo i waelod Afon Menai ac yn cyfarfod â Madoc, Heulwen a Seren (*Act 2 o sioe llwyfan OLION*)

Mae Elan yn ymddangos o'r dŵr,

yn dringo i fyny’r pier, ac mae’n cael ei dilyn gan dri creadur sydd wedi eu synnu gan y byd o’u cwmpas ac sy’n perfformio defod cyfarwydd er mwyn diogelu eu hunain. Maent yn dod ar draws prysurdeb gwyllt a seirennau yr heddlu, felly maent yn penderfynu dianc a chwilio am loches er mwyn cael amser i gynllunio.

## Gadael y Pier

Mae Elan a’r creaduriaid wedi diflannu, ond mae pawb wedi bod yn sôn amdan nhw. Mae’r newyddion wedi cyrraedd y radio, mae cymdogion wedi bod yn siarad, a mae gohebydd newyddion wedi bod yn holi tystion ar Ffordd Garth.

Mae pobl wedi dechrau efelychu symudiadau’r creaduriaid - mae eu diwylliant a’u harferion eisoes wedi dechrau lledaenu ymysg pobl Bangor, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

Yn raddol, mae sïon anymunol am y creaduriaid yn datblygu... a allai eu rhoi mewn perygl.

# Twnel Dirgel

Mae pobl ifanc Hirael wedi bod yn teimlo bob math o emosiynau - yn chwerthin, crio, llawenydd, ofn - ac maen nhw wedi dechrau gwneud y symudiadau maent wedi eu  mabwysiadu gan y creaduriaid.

Mae rhybudd côd coch yn torri - mae Hirael bellach mewn

stâd o argyfwng; mae’r creaduriaid yn yr ardal, mae’n bosib eu bod yn beryglus, ac mae pobl ifanc yn ymddangos fel petaent wedi disgyn i fod dan eu rheolaeth.

## Y Cylch Cerrig

Ymhlith y cerrig hynafol (wrth ymyl y murlun o Hirael a phawen enfawr binc) mae Maggi Noggi yn perfformio ei fersiwn hi o ‘Nôs yng Nghaer Arianrhod’ i’r gynulleidfa tra bod dilynwyr eraill y creaduriaid yn dechrau perfformio’r ddefod maent wedi ei ddysgu. Mae Elan yn ymddangos ac mae pawb yn dechrau

paratoi ar gyfer y cam nesaf i ddatgelu eu hunain a’r creaduriaid/arweinyddion yn yr ŵyl.

## Safle Gŵyl Adda Fest

Mae'r gohebydd newyddion wedi bod yn holi pobl ar safle'r ŵyl ac wedi llwyddo ii ddal trefnydd ŵyl - Llew, mab busnes lleol. Mae'r gohebydd yn gofyn iddo pam fod yr ŵyl yn parhau er bod Hirael mewn stâd o argyfwng? Mae Llew yn ateb, ond mae dynes yn torri ar ei draws yn gweiddi fod

‘Arianrhod yn dod i’n boddi ni!’

Mae Llew yn cymryd y llwyfan ar y pwynt yma ac yn ceisio cysuro nerfau mynychwyr yr ŵyl, a’u croesawu nhw i’w ddathliad o Fangor. Yn ystod ei araith, mae’r dilynwyr a’r creaduriaid yn dechrau cymryd drosodd cae yr ŵyl.

Mae meic Llew yn torri ac mae Elan yn

cymryd y llwyfan, gan gyflwyno'r creaduriaid i bawb. Mae Llew a'i gyfeillion yn brwydro am reolaeth, ac maent yn dal un o'r creaduriaid - Madoc - a'i garcharu yn y pwll nofio.

Mae ffrindiau a dilynwyr y creaduriaid yn rhedeg i amddiffyn Heulwen, sydd yn

feichiog, a’i chymryd
i loches yn y Nyth.

Yng nghanol popeth,
mae Seren, y trydydd
creadur, yn llwyddo i
ddianc.

# GOLYGFEYDD SY'N DIGWYDD AR YR UN PRYD

## 1. Nyth

Mae'r hen Eglwys Santes Fair, sydd bellach yn gartref newydd i Frân Wen, wedi dod yn noddfa i Heulwen, ei dilynwyr a Elan. Mae Heulwen yn cael ei thywys gan Ferched Annwn - ac maent yn ei chefnogi

trwy enedigaeth ei phlentyn.

Unwaith mae'r plentyn yn cael ei eni, mae Elan yn sylweddoli nad yw'r plentyn yn ddiogel, er iddi addo y byddai pawb yn ddiogel.

Mae Elan yn sylweddoli bod angen iddynt ddilyn hoel troed Arianrhod ac adeiladu lloches

diogel o dan y dŵr - a boddi’r ŵyl!

## 2. Pwll Nofio

Mae Madoc yn cael ei garcharu mewn cell yn y pwll. Yn ei wrthwynebiad, mae Llew yn gofyn i’r gynulleidfa beth ddylid ei wneud ynglyn â’r creaduriaid. Mae’n mynd yn fwyfwy afresymol, gan rannu

sylwadau a barn eithafol.

Mae Seren yn llwyddo i dorri i mewn i'r pwll nofio ac achub Madoc. Mae Llew yn cael ei haeddiant yn y diwedd ac yn cael ei daflu i'r gell. Ond mae'n dal i ferwi, dal i gynllunio. Mae'n clywed am gynllun Elan i ddisodli ei ŵyl

a boddi'r cae ac mae'n wallgof.

## Y Diweddglo

Felly, nawr rydych chi'n gwybod beth sydd wedi digwydd hyd yma - efallai eich bod wedi gweld rhai golygfeydd ar hyd y ffordd. Paratowch i weld cyfres o ddigwyddiadau ac ymgais Elan a'r creaduriaid i ddifetha'r ŵyl!